



Rhifyn Arbennig!

Fel mae darllenwyr rheolaidd Llais Y Derwent yn gwybod, does dim rhifyn yn ystod gwyliau haf fel arfer. Mae'r cyfnod presennol yn wahanol yn hynny o beth, oherwydd Coronafeirws, a'r 'Cloi-lawr' ni fydd hi'n bosib i nifer fawr ohonom adael ein cartrefi a'n cymunedau am sbel eto, heb son am gael gwyliau haf i ffordd, felly mae'r Llais wedi penderfynu cyhoeddi sawl rhifyn ychwanegol. Diolch felly i'n cyfranwyr am roi pin i bapur neu bys i allwedd-bwrdd er mwyn llenwi tudalennau Llais unwaith eto. Heb ein cyfranwyr ni fydd Llais yn gweld golau dydd.

Wrth i mi ysgrifennu'r eitem yma yr ydyn ni wedi pasio'r canfed diwrnod dan glo, a nifer fawr o deuluoedd ar draws y Deyrnas Unedig wedi dioddef profedigaethau. Rhaid i ni i gyd cofio'r bobl yma, y rhai sy wedi marw a'i deuluoedd a'i ffrindiau sy'n galaru. Dyn ni ddim ond yn gallu gobeithio bod y cyfnod ofnadwy yma yn dod i ben heb ormod ragor o golledion.

Mae Bore Coffi Popeth yn Gymraeg Nottingham dal i gwrdd ar ddechrau pob mis gan ddefnyddio Zoom tra mae Cylch Dysgwyr Cymraeg Derby yn parhau i gwrdd ar lein efo sesiwn Panad a Sgwrs wythnosol pob bore dydd Sadwrn, a Gweithdy misol ar Zoom a gwersi rheolaidd dan ofal ein tiwtor

Elin Heron gan ddefnyddio cyfarfodydd Skype. Dyn ni'n ddiolchgar iawn iddi am ei hymdrechion ar ran ein dysgwyr. Mae sefyllfa Cloi-lawr wedi esgor ar nifer fawr o gyfleoedd eraill, megis cyfarfodydd Welsh Speaking Practise efo SSIW, sesiynau sgwrsio efo nifer o Fentrau Iaith yng Nghymru, a nifer o ddigwyddiadau eraill megis yr Eisteddfod Amgen, Tafwyl a Gŵyl Lenyddol y Gelli Gandryll i gyd wedi'i chynnal ar lein. Wrth gwrs does dim sicrwydd eto pryd bydd hi'n bosib mynd yn ôl i gyfarfodydd y Gweithdy Cymraeg Misol yn Derby, ond unwaith mae'r wybodaeth ar gael mi fydd neges e-bost, hysbys ar ein gwefan ac ar ein grŵp Facebook Menter Iaith Lloegr, neu alwad ffôn i'r rhai heb gyswllt digidol. Dyn ni i gyd yn edrych ymlaen yn arw at yr amser pan fydd hi'n bosib ailgydio yn ein bywydau arferol.

Jonathan Simcock





Plismon Iaith

Mae 'Plismon Iaith' yn ymadrodd difriol iawn yn y byd Cymraeg, afraid dweud. Ystyr derbyniedig yr ymadrodd yw rhywun sy'n hoff o gywiro treigladau a gwallau iaith pobl eraill, ac (wrth reswm) dyw neb yn awyddus i gael ei ddisgrifio felly!

Ar y llaw arall, mae bod yn Geidwad Iaith yn beth braf iawn: sef, rhywun sy'n teimlo'n gyfrifol am amddiffyn a gwarchod y Gymraeg.

Wedi'r cwbl, mae'r Gymraeg yn gyfaill annwyl i ni i gyd: cyfaill sydd wedi bod dan warchae parhaus ers canrifoedd. Yn wir, mae hi'n dal i fod ynghlwm mewn brwydr ddyddiol, ddiidiwedd yn erbyn y Llfeiriant Llwyd: hynny yw, llif didrugaredd Saesneg a diwylliant Lloegr sydd am goncridio Gardd y Gymraeg: rhyddiaith ddi-liw yn hytrach na barddoniaeth liwgar; Stonehenge yn hytrach na Chôr y Cewri; lockdown yn hytrach na'r Meudwyo Mawr; Love Island yn hytrach na Thalwrn y Beirdd.

Mae'n lwcus felly bod gan y Gymraeg bwerau hudol i ymorol am gael help gan fyddin o bobl frwd ochr yma'r ffin yn y frwydr annheg honno.

Heb amheuaeth, fe gynyddodd raddfa'r Llfeiriant Llwyd yn sylweddol ganrif yn ôl gyda dyfodiad y BBC a achosodd i gartrefi ledled Cymru gael eu boddi dan don lanw Saesneg a Seisnigrwydd (er bod Radio Cymru'n eithriad anrhydeddus na allem ni fyw hebddo).

Deddfu er mwyn datganoli darlledu i Gymru yw un o'r datrysiadau naturiol yn y pen draw, heb os nac oni bai, ond pa mor debygol yw hynny ar hyn o bryd, yn enwedig o gofio bod Prif Weinidog Cymru o'r farn bod pob cenedlaetholwr ar yr adain dde? Does gynnon ni, a ninnau'n byw yn Lloegr, ddim llais na grym i ddylanwadu ar y ddadl wleidyddol honno beth bynnag. Yr hyn y gallwn ni'i wneud yw efelychu'r Cymry Cymraeg yng nghydestun eu hanes hir a chryf o hunangymorth.

Y ffaith ein bod ni wedi dysgu Cymraeg yw'r arf fwyaf pwerus sydd yn ein harfdy ni, ond does dim rhaid i ni godi arfau'n erbyn unrhyw berson yn y frwydr hon, diolch byth: dim ond yn erbyn anwybodaeth ei hun. Gellid damcaniaethu'n dragwyddol ynghylch yr amrywiol resymau pam fod gan y Saeson anoddefgarwch ieithyddol wedi'i rag-gyflyrru, ond digon yw cydnabod y sefyllfa a cheisio gwneud rhywbeth yn ei chylch.

Mae cywilydd arna i wrth feddwl am fy anwybodaeth fy hun ynglŷn â'r Gymraeg cyn i fi ddysgu'r iaith o'r diwedd.

Mae Plismyn Iaith yn amhoblogaidd yn rhannol gan eu bod nhw'n hunan benodedig: does ganddyn nhw ddim

hawl i ymyrryd gan na chawson nhw'u penodi i'w wneud. Gelynion y Gymraeg yw Plismyn Iaith oherwydd eu bod nhw'n ei hamddifadu hi o siaradwyr newydd ac yn annog rhai siaradwyr sy'n bod i beidio â'i defnyddio. Yn y dadansoddiad olaf, maen nhw'n newynu'r Gymraeg yn araf bach, ac ni fyddai ganddyn nhw unrhyw gyfreithlondeb moesol hyd yn oed petasen nhw'n cael eu penodi'n swyddogol.

Ond cyfeillion i'r Gymraeg yw Ceidwaid Iaith, a does dim rhaid iddyn nhw aros am wahoddiad i wneud cymwynas â chyfaill. Mae gynnon ni yn Lloegr ryddid llwyr i wneud beth bynnag y mynnawn i hybu, hyrwyddo, amddiffyn a gwarchod yr iaith, a does dim angen caniatâd gan neb i wneud hynny.

Mae gan bob un ohonon ni berthynas bersonol ac unigryw â'r Gymraeg, ac mae rhoi a derbyn yn sail i bob perthynas. Mae'r Gymraeg wedi rhoi gymaint i ni. Yr unig gwestiwn yw felly: beth allwn ni'i roi'n ôl iddi hi?"

Simon Chandler
Manceinion



Meddyliau Cyfnod Cloi

Efallai y basech chi'n rhagweld bod rhywun yn ysgrifennu am y 'Cyfnod Cloi' yn Llais y Derwent. Yn sicr, dw i'n disgwyl i rywun arall ysgrifennu am y cyfnod rhyfedd hwn, ond bydda i'n dal i fwriadu rhoi fy mhrofiadau a meddyliau ar bapur, fel petai.

Wel, beth ydw i wedi bod yn ei wneud? 23ain mis Mawrth oedd y tro diwethaf bues i yn y swyddfa. Dw i'n ddigon ffodus i fod yn gallu gweithio gartre ac mae technoleg wedi ein galluogi ni i wneud bron yn bopeth ein bod ni'n ei wneud yn y gwaith. Oedd yn anodd ymdopi a hyn am sbel a dw i'n credu mai'r newid mawr a sydyn yn fy mywyd oedd y rheswm dros y teimladau negyddol a rhyfedd o'n i'n eu profi. Roedd rhaid i mi newid patrwm bywyd dydd i ddydd a dyna rywbeth dan ni'n ei gymryd yn ganiataol. Dan ni'n mynd yn arfer efo'r hyn sy'n cael ei ddisgwyl. Y drefn. Felly, bydd yn cymryd gryn dipyn o amser i fynd yn arfer efo trefn newydd. Yn hytrach na brwydro yn ei erbyn, mae'n well i gofleidio'r drefn newydd, er pa mor anodd ydy hi. Dw i'n credu hefyd y bydd sut dan ni wedi defnyddio technoleg er mwyn goresgyn y broblem o weithio gartre'n dylanwadu ar sut bydd llawer ohonon ni'n gweithio yn y dyfodol. Mae cael mwy o bobl yn

gweithio gartre'n lleihau tagfeydd ar y ffyrdd, lleihau llygredd a lleihau'r stress sy'n gysylltiedig â theithio i'r gwaith.

Fedra i ddim cwyno o gwbl gan fy mod i'n lwcus am sawl rheswm. Mae'r Cyfnod Cloi wedi rhoi cyfleoedd i mi ganolbwyntio ar gerddoriaeth. Dw i wedi gweithio ar gerddoriaeth newydd ac mae hi wastad yn braf a boddhaol i fod yn greadigol. Dydy'r pwysau a disgwyliadau yn ein bywydau ddim gwastad yn gadael i ni ddilyn y llwybr creadigol. Yn wir, dydy celfyddyd ddim yn cael eu gweld fel rhywbeth angenrheidiol yn yr un ffordd a gofal, swyddi, cludiant cyhoeddus ac ati, ond mae pobl yn dioddef erbyn hyn trwy beidio â mynd i'r theatrau, cyngherddau, sinemâu, gigs yn y dafarn, orielau, arddangosfeydd ac yn y blaen. Dyma'r cyfnod sy wedi amlygu pa mor hanfodol ydy celfyddyd yn ein bywydau. Dydy hi ddim yn syndod o weld y gerddoriaeth sy wedi cael ei llwytho i fyny ar y we. Cerddoriaeth sy wedi cael ei chreu o ganlyniad i'r Cyfnod Cloi. Mae argyfwng a her a dan ni wedi ymateb efo creadigrwydd. Dyma sut dan ni'n cwrdd â'r her sy'n ein hwynebu. Dyma sut dan ni'n dod o hyd i gysur a mynegi ein hunain. Un o'r pethau sy wedi bod yn llwyddiant ar Facebook ydy 'Corona!', sef tudalen lle mae pobl yn rhoi fideos ohonynt eu hunain yn canu neu ganu offerynnau. Cyfrannais at y dudalen hon trwy ysgrifennu a recordio can Gymraeg newydd o'r enw 'Daw'r Bore Eto'. Oedd yn hyfryd i feddwl fy mod i'n cyfrannu rhywbeth at y byd Cymraeg o ochr arall Clawdd Offa ac oedd yn braf ymuno a'r ysbryd llawen oedd wedi cael ei greu.

Mae cerdded wedi dod a'r cysur i mi hefyd a dw i wedi bod yn manteisio ar y cefn gwlad hyfryd sydd ar fy stepen drws. Dw i ddim yn byw yn bell o'r pentre' Ashover a hwnnw ar gyrion Parc Cenedlaethol Peak District, felly dyna le dw i wedi bod. Yn anaml y gwelais lawer o bobl hefyd, felly cefais lonyddwch. Perffaith! Ers i ni yn Lloegr gael caniatâd i yrru i leoedd sydd tu allan i'n milltir sgwâr ni, cefais gyfle i yrru am hanner awr er mwyn cerdded yn fy hoff leoedd yn y Peak District, sef Kinder Scout, Bleaklow a'r dyffrynnoedd calchfaen. Oedd yn donig i ymlwybro yn yr ardaloedd 'na unwaith eto. Mae hi wedi newid yr wythnos hon, ond dan ni wedi cael ein bendithio efo tywydd hafaidd iawn y gwanwyn hwn ac mae hyn wedi cyfrannu at y ffordd dw i wedi ymdopi. Mae golwg braf ar ein gardd hefyd, er fy mod i wedi gorfod torri'r lawnt a gwrychoedd yn amlach nag arfer ar yr adeg hon y flwyddyn!

Mae pobl wedi bod yn defnyddio technoleg er mwyn cadw mewn cysylltiad a dw i wedi cymryd rhan mewn sawl cyfarfod ar Skype a Zoom. Ar y cyfan, mae'r fath dechnoleg wedi gweithio'n dda iawn a dw i'n sicr y bydd llawer ohonon ni wedi mwynhau cael sgysiau trwy ddefnyddio'n cyfrifiaduron, gliniaduron a hyn yn oed ein ffonau. Mae pethau wedi symud ymlaen ers dyddiau'r ffon, llythyrau ac e-byst! Bu twf yn y nifer o bobl sy wedi dechrau dysgu'r Gymraeg. Mae miloedd wedi cofrestru ar gyrsiau ar-lein dros y tri mis diwetha. Gad i ni obeithio y gwelir byddin enfawr o siaradwyr Cymraeg newydd yn y

dyfodol agos! Dw i wedi sylwi ar ba mor brysur ydy hi ar dudalennau Cymraeg sydd ar Facebook ar hyn o bryd efo llwyth o ddysgwyr yn gofyn am gyngor ynglŷn â gramadeg Cymraeg, manylion o gyrsiau Cymraeg, adnoddau sydd ar gael ac ati. Mae hyn i gyd yn anfon neges gref bod yr iaith Gymraeg yn bwysig i gymaint o bobl a dylai hi godi calon y bobl sy'n coleddu'r iaith ac eisiau ei gweld yn ffynnu.

Dydy hi ddim wedi bod yn hawdd, ond nid yr unig berson sy wedi teimlo mor rhyfedd ar adegau dw i. Mae hi wedi bod yn amser delfrydol i feddwl am rai agweddau o'n bywydau ni. Gobeithio ein bod ni wedi dysgu i wneud mwy o'r pethau sy'n dod a chymaint o bleser a hapusrwydd i ni. Gobeithio y byddwn ni'n adlewyrchu ar bethau'n amlach ac efo agweddau gwahanol. Gobeithio y byddwn ni'n ymdrochi ym myd natur a gweld pa mor bwysig ydy'r byd hwn a sut mae'n cynnig cymaint i ni. Gobeithio y bydd y cyfnod cloi wedi gwneud i ni feddwl ac ystyried. Mae gynnon ni i gyd brofiadau gwahanol o'r hyn sy'n mynd ymlaen ar hyn o bryd a bydd rhai ohonon ni wedi addo'n dawel wrthon ni ein hunain i newid pethau. Pethau bach, efallai? Mae hynny'n beth da, tydy? Beth bynnag ydy'ch meddyliau chi, gobeithio eich bod chi'n cadw'n ddiogel a'ch bod chi wedi bod yn meddwl am bethau mewn ffordd wahanol. Dyna'r hyn dw i wedi bod yn ei wneud.

Martin Coleman
Clay Cross



Dim Cymraeg!

Ers y cyfnod clo, mae Viv a fi yn cael sgwrs Skype am awr bob nos, a weithiau wedi bod yn trafod englynion. Un ddaeth i'm sylw i oedd englyn am fuwch gan y diweddar R E Jones, (Robert Ellis Jones, Llanrwst):

Holl gyllid Llew y Gelli – iddo ddaw

Odd'wrth y fuwch Jersi.

Llifa'i ardreth drwy'i thethi,

A phres hwn ddaw o'i phwrs hi.

Roedd *RE Jones* yn byw yn Llanrwst pan ddois i i'w nabod o, wedi ymddeol o fod yn brifathro, a fel *RE* yr oedd pobl yn ei nabod o. Roedd o wedi ennill yn yr Eisteddfod Genedlaethol, wedi cyfansoddi sawl englyn, a wedi bod yn Feuryn ar Ymryson y Beirdd.

Llynedd prynais lyfr Myrddin ap Dafydd, 'Pren a Chansen' oedd yn trafod y dull creulon ac anwaraidd o gosbi plant ysgol yng Nghymru am siarad eu mamiaith! Yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg y cynlluniwyd yr 'W.N.' (Welsh Not), sef darn o bren yn hongian ar gortyn hefo'r ddwy lythyren gywilyddus arno, a phwy bynnag oedd yn siarad Cymraeg yn yr ysgol yn gorfod ei wisgo am ei wddf. Os clywai'r 'troseddwr' blentyn arall yn 'pechu', roedd o'n cael trosglwyddo'r

pren i hwnnw, ond y plentyn olaf oedd yn ei wisgo ar ddiwedd pob diwrnod ysgol oedd yn cael cansen cyn mynd adre.

Cyfnod ysgol Llangernyw sydd gan Myrddin ap Dafydd dan sylw, yn yr hen Sir Ddinbych, pan oedd RE a'i frawd, Owen, yn ddisgyblion o 1912-1920. Yn ei amser o, doedd y Welsh Not ddim yn cael ei ddefnyddio, ond roedd siarad Cymraeg yn hollol waharddedig, ac roedd cosb o gansen ar law, neu yn aml, ar y ddwy law, a honno yn 'slap go iawn' gan y prif athro, yn 'brathu o ddifrif' yn ôl Robert Ellis Jones, oedd yn gymydog i'r awdur.

Roedd Mam yn mynd i ysgol Llanfair Talhaearn, pentref ger Llangernyw, a doedd wiw i neb siarad dim byd ond Saesneg, a hynny yn ei hamser hi o 1911-1919, serch mai Cymry Cymraeg oedd y rhan fwyaf o blant ac athrawon yno.

Amcan gwahardd y Gymraeg oedd troi plant i fod yn Saeson ac yn rhan o'r Ymerodraeth Brydeinig, a 'nid yn unig i'n Seisnigo o ran iaith ond i'n Prydeinio o ran teimlad' yng ngeiriau RE.

A nid Cymru oedd yr unig wlad i ddioddef hyn chwaith, gan bod hyn yn digwydd mewn llawer o wledydd bychain oedd dan fawd eu gormeswyr yr adeg hynny.

Roedd plant Llydaw yn cael "buwch bren" am eu gyddfau am siarad eu mamiaith, a chlocsen bren neu gragen o'r mor oedd honno; gwisgo pen llwynog oedd y gosbedigaeth yn yr Alban; ac yn Ne America, roeddent yn cael sebon yn eu cegau am "siarad

iaith fudr eu hynafiaid" cyn cael cweir neu gansen cyn mynd adre.

Fedra'i ddim dychmygu sut effaith oedd hyn wedi'i gael ar y plant druan!

Canfuwyd pren W.N. gan weithiwr yn trwsio llawr yn Ysgol y Garth, Bangor, yn y flwyddyn 1902. Pan gafodd y prifathro, Llew Tegid o'r Bala yn wreiddiol, afael ynddo fo, a'r gweithiwr am ei daflu o o'r neilltu, dyma ei sylweb o yn ôl Myrddin: "Na," meddai toc. "Mi gadwa i hwn, diolch yn fawr. Dydi'r hen arfer budr ddim wedi diflannu o'r tir yn llwyr eto. Mae angen i ni gofio am y ffordd gawsom ni'n trin. Fedrwch chi ddim rhoi cweir i blant am siarad Cymraeg a disgwyl inni gau ein llygaid i'r hanes."

**Enid Davies
Eglwysbach**

Geirfa

Ardreth - revenue

Holl gyllid - finance

A phres hwn ddaw o'i phwrs hi – his income comes from her udder

Hollol waharddedig – totally prohibited

Siarad iaith fudr eu hynafiaid - Speaking their forefathers dirty language

Cymdeithas Cymry Nottingham



www.nottinghamwelshsociety.org.uk



Derfel Gadarn

Codwyd cerflun pren i'r Sant yn Eglwys Llandderfel. Yn ystod y 16eg Ganrif roedd cannoedd o bererinion yn dod i'r pentref i'w addoli, nifer gydag offrymau o anifeiliaid ac arian i'r Sant gan gredu fod hyn yn mynd i'w hachub rhag uffern neu o leiaf yn cwthau'r amser ym mhurdan.

Roedd y 1530'au yn gyfnod diwygiad ym Mhrydain gyda Brenin Henri'r VIII yn awyddus i ddod ag addoli'r cerfluniau i ben. Gwelai perygl ynddynt, yn fygythiad oherwydd yr arian yn llifo i goffrau'r Eglwysi, yn ofni iddynt sbarduno gwrthryfel Catholig a gwrthod ei dderbyn yn Bennaeth yr Eglwys ym Mhrydain.

Felly, yn 1538 ar orchymyn Thomas Cromwell, aeth Ellis Price o Ysbyty Ifan i'r Eglwys a thorri cerflun y Sant i ffwrdd o'r carw a'i gludo i Smithfield, Llundain lle y llosgwyd ar goelcerth efo Friar Forest o Greenwich a oedd wedi'i gyhuddo o fradwriaeth yn erbyn y Brenin Henri. Rhaid diolch i Ellis Price am ddilyn y gorchymyn yn llythrennol a gadael y carw yn yr Eglwys. Ellis oedd mab ieuengaf Robert ap Rhys, sef caplan Cardinal Wolsley a mai'i adroddiad a ddaeth a'r sefyllfa yn Llandderfel i sylw Thomas Cromwell yn

cael ei gadw yn yr Archifdy Cenedlaethol yn Llundain.

Tri chan mlynedd ymlaen mae hanes fod y 'ceffyl' yn cael ei gario o gwmpas y plwyf yn ystod Gŵyl y Pasg, a phlant yn marchogaeth arno. Ond cafodd ei ddifrodi ymhellach ar orchymyn Deon lleol yn yr 18fed Ganrif, o bosib oherwydd y cysylltiad efo addoli creiriau yn y gorffennol a'r dylanwad oedd ganddynt ar y bobl.

Felly hyd heddiw mae beth sydd ar ôl o'r 'ceffyl pren' yn cael ei gadw yn yr Eglwys, yn gysylltiad anhygoel a phrin o'r Canoloesoedd a'r hen Oes y Saint yng Nghymru.

Mary Sillitoe

Gwybodaeth bellach

www.walesonline.co.uk

www.parish.churchinwales.org.uk



Cylch Dysgwyr Cymraeg Derby Rhaglen 2020

Oherwydd y Coronafeirws dyn ni'n cynnal ein gweithdai ar lein tan i'r argyfwng Cofid-19 dod i ben.

Os am gymryd rhan ebostio menteriaithlloer@mail.com

Gweithdy Cymraeg Sadwrn 6-7-20

Gweithdy Cymraeg Sadwrn 15-8-20

Hefyd dyn ni'n cynnal Sesiwn Panad a Sgwrs wythnosol. Mae'n a groeso i bawb boed dysgwyr neu siaradwyr rhugl. Dewch yn llw!

www.derbywelshlearnerscircle.blogspot.com

Iaith Ryngwladol?

Fel arfer, ym mis Gorffennaf, cynhaliwyd yr Eisteddfod Ryngwladol yn Llangollen a ddechreuodd yn y Flwyddyn 1947. Roedd yr Eisteddfod yn ymgais gan wlad fach i ddod a phobl y byd at ei gilydd mewn heddwch a thangnefedd ar ôl cyfnod erchyll yr Ail Ryfel Byd.

Yn anffodus, eleni mae'r Eisteddfod wedi cael ei ohirio achos y Coronafeirws ond cofiwn y cannoedd o artistiaid enwog sydd wedi bod yno. Yn 1955, daeth Luciano Pavarotti gyda'r côr roedd ei dad yn arwain ac wedyn dychwelyd nôl yn 1995 i berfformio mewn cyngerdd ysblennydd.

Wel wrth feddwl am deithio tramor a chanu mewn "CÔR", cofiais am wibdaith i Canada.

Ym mis Awst 2003 aeth dros ddeugain ohonom i Wyl Gymreig Gogledd America yn Vancouver. Yn ystod yr Wyl, roedd Noson Lawen, Cymanfa Ganu, cyngerdd gyda Chôr Meibion Dyfnaint (Dunvant) a Jason Howard o Ferthyr, sawl darlith, Cinio Mawr ac yn y blaen.

Ar y noson olaf, cyn aeth y rhan fwyaf ohonon ni ar daith drwy'r Rockies a'r gweddill ar fordaith i Alaska, penderfynon fynd am bryd o fwyd gyda'n gilydd mewn pentref bach bysgota o'r enw Stevenson's, nepell o'r gwesty.

Ar y cei, roedd dwsinau o longau yn llawn pysgod - chwe math o eog, miloedd o gorgimwch, tiwna anferth ac ati. Roeddwn wedi mynd i'r pentref ar

fws ac ar ôl pryd o fwyd blasus - pysgod a sglodion wrth gwrs, fe deithion ni nol i'r gwesty ar yr un bws ac mewn rhyw dwy funud dechreuodd y canu - Sosban Fach, Myfanwy, Dros y Mynydd Du ac wedyn yr emynau byd-enwog Cwm Rhondda, Pantyfedwen, Gwahoddiad. Daeth pobl leol i mewn i'r bws ac yn methu dyfalu beth oedd y canu!

Roedd y gyrrwr wrth ei fodd ac yn meddwl taw côr tramor oedden ni yn ymarfer! Cawsom y gymeradwyaeth fwyaf ar ôl canu Calon Lan. Yn ffodus, roeddwn ni gyd yn cofio pob gair o'r caneuon a'r emynau. Cofion diddorol a doniol. Ai cerddoriaeth yw'r iaith ryngwladol?

Delyth Neill

Aston on Trent

ac yn gynt o Gydweli

SIARADWYR A DYSGWYR

Cymraeg

GUIDED WALK FOR WELSH SPEAKERS AND LEARNERS



Cerddwyr

Canolbarth Lloegr

Grŵp Weplyfyr ar gyfer siaradwyr
Cymraeg a dysgwyr sy eisiau cwrdd i
gerdded yn Ardal y Peac

ac i siarad Cymraeg

menteriaithlloegr@mail.com



Ail-ddysgu Cymraeg

Dydw i byth wedi byw yng Nghymru. Cefais fy ngeni a'n magu mewn teulu Cymraeg yn Llundain. Roedd fy rhieni'n siarad Cymraeg â'i gilydd, ac â fi i ddechrau, ac felly mae'n gywir i ddweud mai Cymraeg yw fy mamiaith, yr iaith oedd uwch fy nghrud, ond ar ôl dechrau'r ysgol a dysgu Saesneg, roedden i'n gwrthod siarad Cymraeg â neb.

Roeddwn i'n gyfarwydd â chlywed Cymraeg yn fy nghartref ac yn y capel, a'i darllen i ryw raddau (yn bennaf y Beibl a'r llyfr emynau) ac mae geiriau Dafydd Iwan yn Gan yr Ysgol: 'Cymraeg siaradodd yr Iesu am a

wyddwn i' yn cyseinio gyda fi. Ond gwnes i byth ei dysgu'n ffurfiol, na'i hysgrifennu, ac felly doeddwn i byth wedi dysgu'r rheolau gramadeg. Roedd yn gromlin ddysgu serth felly pan benderfynais, tua saith mlynedd yn ôl, i ddysgu Cymraeg yn briodol. Roedd hyn ar ôl einioes o fyw yn Lloegr, priodi Sais, magu dau fab sy'n Saeson i'r carn, a byw fy mywyd yn hollol yn Saesneg.

Ond, ar ôl i fy rhieni farw, dechreuais ofidio am y ffaith y byddai'r iaith Cymraeg yn fy nheulu i yn marw gyda fy nghenhedlaeth i. Mae hyn yn wir o hyd wrth gwrs, ond roeddwn i'n methu cael gwared â'r tristwch fy mod byth wedi gwneud ymdrech i gyflwyno fy mhiant i'r iaith. Yn ddiddorol ddigon, Cymro Cymraeg yw gŵr fy chwaer ond mae eu plant nhw mor Saesneg â fymhlant i, ond nid oedd fy chwaer yn cyfaddef i unrhyw ofid!

Mae'r ddau gwrs ar-lein astudiais gyda Phrifysgol y Drindod Dewi Sant wedi cyfoethogi fy mywyd mewn cymaint o ffyrdd a bues i'n difaru ar ôl iddyn nhw ddod i ben, yn enwedig am fy mod wedi methu dod ar draws unrhyw gwrs ar-lein arall i barhau a datblygu ar beth ddysgais i. Yn ddiweddar, sesiwn Skype wythnosol gyda thri ffrind yw'r unig gyfle dw i'n cael i siarad Cymraeg. Dw i'n darllen gwefannau Cymraeg, fel BBC Cymru Fyw, yn ddyddiol, ac mae cadw mewn cysylltiad â'r iaith yn hawdd trwy wefannau fel hyn, ond ni allant gymryd lle cysylltiad personol gyda siaradwyr Cymraeg.

Myra Dawson
Swydd Dorset

Cerddi Cyfnod y Corona

Nid wyf yn meddu ar y ddawn o farddoni ond 'rwyf yn hoff iawn o ddarllen a dysgu ar gof darnau o farddoniaeth, yn arbennig rhai Cymraeg, ac ambell i gerdd Saesneg hefyd. Cofier fod y traddodiad barddoni yn y Gymraeg yn estyn 'nol rhyw bymtheg cant o flynyddoedd.

Fel llawer o bobl, rwyf wedi cael fy nghyfyngu mwy neu lai i'r tŷ yn y cyfnod diweddar ac edrychais am brosiect bach i lenwi'r amser, ac i osgoi bod dan draed fy ngwraig am ychydig oriau. Felly penderfynais recordio fy hun yn llefaru rhai o fy hoff gerddi yn y ddwy iaith a gwneud crynoddig ohonynt. Rwy'n ymwybodol bod crynoddigiau yn mynd allan o ffasiwn ar garlam ar hyn o bryd, ond fel arfer rwyf innau rhyw ugain mlynedd ar ôl pawb arall, yn enwedig â phethau technolegol; os nad ydych yn gwybod erbyn hyn, hen ddyn hen ffasiwn wyf i. Fe welwch isod rhestr o ugain o gerddi neu ddetholiadau allan o gerddi hir yn y ddwy iaith, ac maent wedi'u recordio i'r cyfrifiadur ac yn barod i'w trosglwyddo i ddisgiau. Dyma'r rhestr isod a nodyn neu ddau am rhai ohonynt yn y cromfachau. Mae'na gyfle i aelodau Cylch Dysgwyr Derby ac eraill i gael copi os ofynnwch i mi; rhowch wybod i mi drwy'r golygydd a hynny am ddim wrth gwrs. Paham am ddim? Yn gyntaf nid yw fy natganiadau yn y radd uchaf am nid wyf yn berchen ar lais "Richard

Burtonaidd;" yn ail nid oes eisiau arian arnaf - rwyf yn filiwnêr sawl gwaith drosodd (rwyf weithiau yn dweud celwydd hefyd) ac yn olaf byddai rhaid i mi dalu am hawlfraint cyn elwa o rywbeth fel hyn! Os nad yw'r llefaru a fy nehongliad i o'r radd uchaf, mae celfyddyd ac athrylith pob un o'r beirdd yn y radd orau oll yn fy nhyb i. (Gyda llaw C = Cymraeg, S = Saesneg.). Felly dyma'r rhestr a nodyn neu ddau yn y cromfachau am rhai o'r cerddi.

1. "Cofio" gan Waldo Williams. [C]
2. "A Welsh incident" gan Robert Graves..[S. Stori anghyffredin]
3. Detholiad o'r "Gwanwyn" gan Dic Jones" [C. Meistr ar y canu caeth.]
4. "The solitary reaper" gan Wordsworth. [S]
5. 15ed Salm.[C]
6. "Matilda" gan Obiah Roderick. [C. Cerdd ddoniol yn nhafodiaeth Cwm Tawe]
7. "My boy Jack" gan Rudyard Kipling [E. Cerdd fer. Collodd Rudyard Kipling ei unig fab yn y rhyfel byd cyntaf]
8. "Anne Frank" gan Eirian Davies. [C. Cerdd ddirdynol a 'sgrifennwyd ar ôl i'r bardd ymweld a thy Anne Frank a'i theulu yn Amsterdam]
9. "Annabelle Lee" gan Edgar Allan Poe.[S. Cerdd rhyddmig iawn a *spwci* hefyd. Rwy'n hoff iawn o'i gerdd "The Raven" ond mae'n braidd yn hir.
10. Rhan o "Cwm Tawelwch) gan Gwylim R Jones. [C]
11. "Collier" gan Vernon Watkins. [C. Banciwr oedd y bardd o Abertawe].
12. "Dychwelyd" gan T H Parry-Williams . [C. Un o'i sonedau enwog.]

13. "The new colossus " gan Emma Lazarus. [S. cerdd sydd tu fewn y Gerflun Rhyddid ger harbwr efrog Newydd]
14. Rhan o "Cwm Tawelwch) gan Gwiliam R Jones. [C]
15. "Llys Ifor Hael" gan Ieuan Brydydd Hir 1450-1485 [C. Englynion .Yn cynnwys rhai geiriau hynafol]
16. "Miracle on St David's Day" gan Gillian Clark.[S. Cerdd wedi ei selio ar ddigwyddiad gwir mewn ysbyty.
17. Detholiad o'r ddrama "Llywelyn fawr" gan Thomas Parry. [C. Rwy'n cofio ennill y wobr gyntaf yn Eisteddfod yng Nghaerdydd yn y 60au yng nghystadleuaeth cydadrodd. Hwn oedd y darn gosod; yr unig dro i mi ennill rhywbeth o'r fath yn fy mywyd]
18. "The listeners" gan Walter de la Mare. [S. Rwyf yn cofio dysgu hon yn yr ysgol]
19. " Melin Trefin" gan Crwys. [C.Cerdd hyfryd yn ei symlrwydd. Roedd fy nhadcu yn felinydd am gyfnod]
20. "Yr hen lwybrau" gan Rhys Nicholas. [C]

Byddwch iach ac yn ddiogel

Howell Price
(aelod o Gymdeithas
Cymry Norttingham)

geirfa

cyfyngu > *confine*

tafodiaith > *dialect*

crynoddisg > *CD*

trosglwyddo > *transfer*

dehongliad > *interpretation*

hawlfraint > *copyright*

yn fy nhyb i > *in my opinion*

Cerflun Rhyddid (?) > *Statue of Liberty*

darn gosod > *set piece*

Soffa i 5k ac yn ôl i'r sofffa

Wel, dim cweit... achos methais i wneud yr her pum cilomedr. Ro'n i'n gobeithio ysgrifennu erthygl am sut i neud yr her ond anffodus aeth pethau o chwith.

Dechreuodd pam welais i neges ar y forum Say Something in Welsh am bodlediad Soffa i 5K i ddysgwyr. Mae SSIW wedi bod yn gweithio efo rhaglen FFIT Cymru ar S4C i'w neud y podlediad. I ddweud y gwir, do'n i ddim yn bwriadu dechrau rhedeg, ro'n i isio dim ond gwranddo ar y podlediad i ffeindio allan os medra i ddeall yr iaith achos dw i'n ddysgwr. A ro'n i'n meddwl....does dim pwynt gwranddo yn eistedd ar y sofffa....beth am fynd allan a thrio gwneud rhywbeth? Ac ar ôl tua phum munud ro'n i'n meddwl ei fod yn ffordd wych i'w ymarfer corff yn ystod "clo-lawr". Mae'n cymryd dim ond hanner awr y tu allan i gadw heini a ro'n i'n ei fwynhau yn fawr iawn.

Mae'n hawdd iawn i ddefnyddio y podlediad - dych chi'n lawr lwytho y podlediad ar eich ffôn (mae'n rhad ac am ddim), rhoi glust-ffonau mewn, mynd allan a gwranddo ar lais Rae Carpenter, y hyfforddwr ffitrwydd. Mae Rae yn dweud pryd i gerdded, rhedeg a stopio ac mae hi'n rhoi anogaeth i barhau.

Roedd y gerddoriaeth ar y podlediad yn dda i'w helpu fi canolbwyntio a chadw rhythm.

Pan o'n i'n gwranddo roedd yr amser yn hedfan heibio. Ro'n i'n teimlo fod i'n dod yn well bob tro ac achos mae Rae'n siarad yn Gymraeg ac yn Saesneg, ro'n i'n dysgu pethau newydd yn Gymraeg hefyd. Wnes i ychydig o fideos bach i FFIT Cymru a ro'n i'n wrth fy modd pan ddangoson nhw glipiau ohonyn ar y teledu.

Ar ôl pedair wythnos ces i fferau tost ac oedd rhaid i mi stopio. Ron i'n trio gwneud pethau'n iawn - ro'n i'n cynhesi'r corff cyn dechrau, ymestyn ar ôl gorffen a phrynais i esgidiau rhedeg. Ond ces i doriadau straen beth bynnag. Ron i'n mor siomedig.

Mae gorffwys her arall i mi achos dw i'n hoffi bod yn weithredol. Felly, dw i wedi penderfynu darllen mwy yn Gymraeg a chadw fy ymennydd yn brysur tra bod fy nghorff yn gwella. Dw i'n hoffi darllen ond mae darllen yn her i ddysgwyr. Does dim llawer o ddarllen ar y cwrs SSIW felly wnes i ddechrau darllen ac ysgrifennu trwy'r Clwb Cardiau Post Cymraeg y llynedd. Dw i wedi bod yn darllen llyfrau i ddysgwr wrth orffwys ar y sofffa. Dw i'n mwyhau a dw i'n edrych ymlaen at ddarllen llyfrau "go iawn" yn Gymraeg yn y dyfodol... a gobeithio gorffen gwneud yr her sofffa i 5k!

Cetra Coverdale Pearson Swanwick

Dyma rhai llyfrau dw i'n cymeradwyo i ddysgwyr:

'Cwm Gwrachod' - Colin Jones

Oedd hi yn y llyfr cyntaf darllenais i and mae'n lle da i ddechrau. Stori antur am wrachod. (Mynediad)

'e-Ffrindiau' - Lois Arnold

Dau ffrind sy'n dysgu Cymraeg, un yn Awstralia ac un yn Gymru, cael sgwrs triwyr e-bost.

(Mynediad/Sylfaen)

'Bywyd Blodwen Jones', 'Blodwen Jones a'r Aderyn Prin', 'Tri Chynnig i Blodwen Jones' - Bethan Gwanas

Trioleg o ddyddiaduron doniol Blodwen Jones sy'n dysgu Cymraeg a chwilio am Mr Perffaith. (Mynediad/Sylfaen)

'Yn Ei Gwsg' - Bethan Gwanas

Stori dyfr am rywun syn deffro â gwaed ar ei byjamas ac sydd angen darganfod beth ddigwyddodd yn y nos. (Sylfaen)

'Sgŵp!' - Lois Arnold

Ysgafn stori am ohebydd papur newydd pwy sydd isio ac yn cael mwy o gyffro. (Sylfaen/Canolradd)

'Gwers Mewn Cariad' - Beca Brown

Tiwtor Cymraeg yn cwmpo mewn cariad â myfyriwr. (Canolradd)

'Pen Dafad' - Bethan Gwanas

Stori ddoniol i arddegau am fachgen sy'n dro'n ddafad yn y nos.

'Ffenestri' - Lois Arnold

Storiâu a cherddi diddorol i ddysgwyr. (Mynediad/Sylfaen/Canolradd)

'Gêm Beryglus' - Richard MacAndrew

Stori dditectif cyffrous am lofrudd sy'n crwydro ardal Bannau Brycheiniog. (Canolradd)

Geirfa

podlediad - podcast

lawrlwytho - download

hyfforddwr ffitrwydd - fitness instructor

anogaeth - encouragement

ymestyn - stretching

toriadau straen - stress fractures

gorffwys - rest

gweithredol - active

ymennydd - brain

cymeradwyo - recommend

dyddiaduron - diaries

gohebyr - reporter

arddegau - teens

llofrudd - murderer

crwydro - roaming

Bannau Brycheiniog - Brecon Beacons

Llais Y Derwent

Os dych chi eisiau sgwennu erthygl i 'Lais' cysylltwch trwy anfon neges ebost at menteriaithlloegr@mail.com

Mae hen gopiau o Lais Y Derwent ar gael am ddim ar ein gwefan

www.derbywelshlearnerscircle.blogspot.com